



Helpwch i lywio dyfodol Amgueddfa Cymru

Cyfle i ddweud eich dweud wrth i
ni ddatblygu ein strategaeth
10 mlynedd

#AmgueddfaCymru

#DweudEichDweud

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

ysbrydoli pobl
newid bywydau
inspiring people
changing lives





Amdanom ni

Mae Amgueddfa Cymru yn gyfrifol am saith amgueddfa genedlaethol Cymru a'r ganolfan gasgliadau. Ers 2001 mae mynediad am ddim i'r amgueddfeydd diolch i nawdd Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau, a ddatblygydd o fewn i fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bellach rydym yn gweithio ar strategaeth ddeng mlynedd ac am i gymaint o bobl â phosib gyfrannu at ei datblygiad. Rydyn ni am glywed a gwrandao ar amrywiaeth lleisiau gwahanol cymunedau o bob cwr o Gymru.

Amgueddfa Cymru yw cartref casgliad cenedlaethol Cymru, ac ar ran pobl Cymru rydym yn gwarchod ei chelf, ei hanes, a'i gwyddoniaeth – ein cof cenedl. Rydym yn credu y dylai pawb yng Nghymru fedru defnyddio ein hamgueddfeydd i ddysgu, creu a mwynhau yn Gymraeg a Saesneg. Ond rydyn ni'n gwybod hefyd bod gwaith i'w wneud.

Rydyn ni am i chi helpu i lywio dyfodol Amgueddfa Cymru. Sut allwn ni wneud yn well? Beth allwn ni ei wneud yn wahanol er mwyn bod yn amgueddfa sy'n berthnasol i bawb yng Nghymru? Pa rwystrau sydd angen eu tynnu? Pa rôl ddylai'r Amgueddfa chwarae yn eich cymuned a sut ddylai hi gynrychioli'r gymuned honno?

Eich amgueddfa chi yw hon. Helpwch i'w gwneud hi'n amgueddfa i bawb.

#AmgueddfaCymru #DweudEichDweud

Ein Gwerthoedd



Creadigrwydd

Rydym yn ysbrydoli creadigrwydd trwy ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a thrwy ddoniau ein staff a'n gwirfoddolwyr.

Cyfrifoldeb

Rydym yn gyfrifol am ein gilydd, ein hymwelwyr, yr amgylchedd a'r Gymraeg, gan ofalu am les ein gilydd, yn ogystal â'r casgliadau cenedlaethol.

Gonestrwydd

Rydym yn gweithredu'n onest ym mhob agwedd ar ein gwaith. Gellid ymddiried ynom ac rydym yn arddel safonau proffesiynol.

Cynhwysol

Mae ein hamgueddfeydd yn gynhwysol, ac rydym yn parchu amrywiaeth ein staff a'n hymwelwyr.

Cydweithio

Rydym yn cydweithio – boed hynny gyda'n gilydd, gyda chymunedau neu gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.

Cyflwyniad

gan David Anderson, Cyfarwyddwr
Cyffredinol Amgueddfa Cymru



Mae bron i ganrif ers agor drysau amgueddfa genedlaethol Cymru, ceidwad cof ein cenedl.

Mae wedi bod yn drysorfa o hapusrwydd a hiraeth, o rannu profiadau, o ysbrydoliaeth a chreadigrwydd i filiynau o bobl, o Gymru a thu hwnt, am genedlaethau.

Heddiw, mae Cymru'n wynebu argyfwng iechyd, yn ogystal ag argyfwng cymdeithasol ac economaidd. Cymunedau lleiaf breintiedig Cymru, a chymunedau o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi gweld yr effaith mwyaf. Gwelwyd cynydd yn y risg i bobl sydd mewn perygl yn barod, ac ar iechyd meddwl a chorfforol y genedl. Bydd gwaddol yr argyfwng hwn i'w weld ymhell i'r dyfodol.

Y llynedd, enwyd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn Amueddfa'r Flwyddyn gan y Gronfa Gelf. Wrth ddyfarnu'r wobwr dywedodd cadeirydd y beirniaid, Stephen Deuchar; "Crëwyd y lle hudol hwn gan bobl Cymru ar gyfer pobl o bedwar ban, ac mae'n un o'r amgueddfeydd mwyaf croesawgar ac atyniadol yn y DU".

Eleni, cyn y pandemig, dechreuwyd y gwaith o ddatblygu strategaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer y deng mlynedd nesaf, wedi'i seilio'n rhannol ar dueddiadau tebygol a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r byd yn wahanol heddiw. Wedi cau y saith amgueddfa a'r ganolfan gasgliadau ym mis Mawrth roedd yn rhaid i ni ailfeddwl ein rôl a'n diben yng Nghymru, a datblygu dulliau newydd o weithio.

Rydym yn elfen allweddol o fywyd diwylliannol Cymru ac yn hanfodol i unrhyw broses o adfer ac adnewyddu. Rydym ni bellach yn troi o syniad yr ugeinfed ganrif o'r amgueddfa sy'n gwarchod gwrthrychau o fewn pedair wal, at y syniad bod diwylliant yn rhywbeth byw, perthnasol ac atyniadol mewn cymunedau ledled Cymru.

Gwyddom hefyd ein bod ni fel Amgueddfa wedi cyfrannu at y strwythur anghyfartal sy'n atal Cymru rhag dod yn yn wlad deg a chyfiawn. Nid oes digon o amrywiaeth ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Dydyn ni ddim wedi cydnabod yn ddigonol gwaddol trefedigaethu sydd wedi cyfrannu cymaint at ddatblygiad rhai o'n hamgueddfeydd yn y gorffennol. Nid yw ein casgliadau yn rhoi darlun teg o holl hanesion Cymru.

Mae gan bawb yng Nghymru hawl sylfaenol i chwarae rhan ym mywyd diwylliannol y genedl. Ein nod fel Amgueddfa yw bod yn bresennol ac agored, yn frics a mortar ac yn ddigidol, i'ch cefnogi chi yn hyn.

Ac mae angen eich help arnom. Yn y ddogfen hon rydym yn amlinellu saith amcan i Amgueddfa Cymru. Rydym am glywed eich barn chi amdanynt, yn ogystal â'ch barn gyffredinol a'ch synidau amdanom. Dywedwch beth ddylem fod yn ei wneud yn y ddegawd nesaf i wneud Cymru'n lle gwell i dyfu, i fyw ac i weithio.

1



Amcan 1

Sicrhau bod ein casgliadau yn cynrychioli holl bobl a chymunedau Cymru, ac yn gallu cael eu rhannu a'u mwynhau gan bawb.

Yn ein saith amgueddfa genedlaethol a'n canolfan gasgliadau rydym yn gofalu am 5 miliwn a mwy o wrthrychau sy'n adlewyrchu hanes, natur a chelfyddyd unigryw Cymru. Mae'r casgliad yn ddrych ar fyrdd o agweddau o'n bywydau ac yn gofnod o Gymru i genedlaethau'r dyfodol.

Ond nid yw hyn yn weladwy neu o fewn cyrraedd i bob cymuned yng Nghymru. Nid yw pawb yn ymwybodol o'r casgliad, ac nid pawb sy'n cael yr un cyfle i'w rhannu, ei ddefnyddio a'i fwynhau. Mae lleoliad ddaearyddol yr amgueddfeydd cenedlaethol hefyd yn rhwystri i nifer.

Nid yw pawb chwaith yn teimlo fod Amgueddfa Cymru yn lle iddyn nhw oherwydd nad yw'r amgueddfeydd a'r casgliadau yn eu cynrychioli. Rhaid i ni wneud yn siŵr bod Amgueddfa Cymru yn berthnasol i bawb, ac mae hyn golygu bod angen i'r casgliad cenedlaethol gynrychioli pawb yng Nghymru gan gynnwys, er enghraifft, cymunedau du ac LGBTQIA+. Bydd pobl Cymru yn greiddiol i greu ein casgliadau heddiw ac yn y dyfodol; ein cyfrifoldeb yw dysgu gan gymunedau ym mhob cwr o Gymru a gwrandao ar leisiau amrywiol.

Mae gennym ran i'w chwarae wrth yrru newid, cefnogi hawliau dynol a gwrthwynebu hiliaeth drwy gydweithio â chymunedau

a phartneriaid. Bydd hyn yn creu cenedl fwy cynhwysol a chroesawgar i bob person yng Nghymru.

Dros y ddegawd nesaf rydym am roi'r cyfle i bob cymuned yng Nghymru ddatblygu perthynas newydd a gwahanol ag Amgueddfa Cymru – o fewn pedair wal ac ar-lein. Sut ydych chi am fwynhau'r casgliad cenedlaethol yn eich cymuned. Dyma eich casgliad chi, sut ydych chi am ei ddefnyddio?

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Ydych chi'n defnyddio'r casgliad cenedlaethol ar hyn o bryd, yn y cnowd neu'n ddigidol.
- Sut allwn ni gydweithio i wneud yn siŵr bod y casgliad cenedlaethol yn eich cynrychioli chi a'ch cymuned.
- Sut hoffech chi ymwneud â ni yn y dyfodol?

2



Amcan 2

Gwarchod amgylchedd a bioamrywiaeth Cymru a'n planed

Yn 2019 cyhoeddodd Amgueddfa Cymru argyfwng hinsawdd ac ecoleg, ac ymrwmo i chwarae ein rhan yn diogelu dyfodol y blaned. Mae lleihau ein ôl-troed carbon a dod mor agos â phosib at fod yn garbon niwtral yn flaenoriaeth i ni, yn ogystal ag esbonio'r argyfwng hinsawdd, ei ddeall a'i hyrwyddo.

Drwy ein casgliadau a'n projectau ymchwil gallwn fonitro'r newid yn amgylchfyd Cymru. Mae ein gwyddonwyr yn ymwneud â nifer o brojectau all helpu i warchod yr amgylchedd ac amrywiaeth rhywogaethau, yng Nghymru a thu hwnt.

Ar y cyd â'n Fforymau Ieuentid a Chynladwyaeth rydym wedi cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd i dynnu sylw at yr argyfwng amgylcheddol. Rydym hefyd yn canfod ffyrdd i annog a chefnogi pobl i fynd ati i wneud newidiadau positif yn eu bywydau i warchod yr amgylchedd. Rydym wedi addasu ein hadeiladau i'w gwneud yn fwy ynni effeithlon, ac yn dechrau ailddefnyddio ac addasu deunyddiau arddangosfeydd.

Ond mae rhagor i'w wneud i weithio'n fwy cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw benderfyniadau gan y sefydliad yn ystyried yr effaith amgylcheddol.

Gallwn hefyd wneud mwy i hybu byw'n gynaliadwy i bawb sy'n ymwneud â'r casgliad cendlaethol, ar-lein a thrwy ein hamgueddfeydd.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Ydych chi'n meddwl y gallwn wneud mwy i ddefnyddio'n casgliadau i ddeall, esbonio a hyrwyddo'r argyfwng hinsawdd ac annog pobl i weithredu?
- Esiamlau o'ch cymuned neu sefydliadau eraill rydych chi'n ymwneud â nhw y gallwn ddysgu ganddynt.



Amcan 3

Sbarduno creadigrwydd a dysgu gydol oes

Yr amgueddfa yw'r darparwr addysg mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru. Bob blwyddyn mae 200,000 o ddisgyblion a myfyrwyr a dros 400,000 o deuluoedd, pobl ifanc ac oedolion yn manteisio ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Mae ein rhaglenni dwyieithog yn cael eu datblygu ar y cyd ag amryw bartneriaid ac yn cynnwys arddangosfeydd, digwyddiadau, perfformiadau, gweithdai, cyrsiau, teithiau ac adnoddau digidiol.

Ein nod yw ysbrydoli dysgu gydol oes. Mae addysg yn hawl dynol sylfaenol ac rydym am hybu newid positif drwy ein rhaglenni a sbarduno dealltwriaeth well o hanes Cymru, byd natur a chasgliadau celf Amgueddfa Cymru. Rydym am adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a chefnogi ystod ehangach o bobl i fwynhau creu a dysgu.

Hoffem gysylltu â phob disgybl yng Nghymru cyn iddynt adael yr ysgol. Mae mwy y gallwn ei wneud i ddefnyddio celfyddyd, gwyddoniaeth a'r dyniaethau i sbarduno dulliau newydd o ddysgu ar draws y cenedlaethau.

Yn ystod y pandemig rydym wedi dysgu bod angen i ni wella a buddsoddi yn ein darpariaeth ddwyieithog ddigidol. Drwy gydweithio â'n partneriaid, gallem ehangu ein harlwy rhithwir a digidol.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Sut ydych chi wedi defnyddio neu ymwneud â rhaglenni addysg Amgueddfa Cymru.
- Esiemplau o'ch cymuned neu sefydliadau eraill y gallwn ni ddysgu ohonynt.
- Eich syniadau ar sut allwn ni wella'n gwaith yn y dyfodol.

4



Amcan 4

Cefnogi pobl i fyw yn dda, drwy ddatblygu ein rhaglenni iechyd a lles

Mae amgueddfeydd ledled y byd yn dangos y gallant wneud cyfraniad gwerthfawr i iechyd a lles. Yn ogystal â dwyn mwynhad, gall gweithgareddau creadigol helpu i leihau unigrwydd a gwella safon byw nifer o bobl. Os ydym yn deall gorffennol a'n lle yn y byd, rydym yn fwy tebygol i gyfrannu at ein cymdeithas a dod yn ddinasyddion gweithredol.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl, cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, a datblygu gerddi cymunedol i hybu lles. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglenni iechyd a lles i gefnogi ein gwirfoddolwyr, staff ac ymwelwyr.

Yn ystod y pandemig rydym wedi mynd ati'n sensitif i gasglu profiadau pobl Cymru ac yn cydweithio â byrddau iechyd i ddarparu gweithiau celf mewn ysbytai maes. Wrth i ni gynllunio am ddyfodol y tu hwnt i COVID-19, gall ein hamgueddfeydd a'r casgliad cenedlaethol fod yn ofod i fyfrio ac adfer.

Mae Cymru yn datblygu gwasanaethau iechyd a lles rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Drwy gydweithio â phartneriaid, gallem ddatblygu ein hamgueddfeydd a'n rhaglenni ymhellach i gefnogi iechyd a lles pobl Cymru.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Eich profiad o gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol i gefnogi eich iechyd chi a phobl eraill.
- Ffyrdd yr ydych wedi defnyddio neu ymwneud â rhaglenni a gweithgareddau iechyd a lles Amgueddfa Cymru.
- Esiemplau o'ch cymuned neu sefydliadau eraill allai ddysgu rhywbeth i ni.
- Eich syniadau ar sut y gallem ddatblygu'r gwaith i'r dyfodol.

5



Amcan 5

Gwerth gwell i Gymru

Mae ein hamgueddfeydd yn denu ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol i Gymru. Maent yn cynnig profiadau unigryw i bobl o bob oed, ac mae ein hadeiladau a'n safleoedd diwydiannol yn rhan o gasgliad cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal a bod yn llefydd hudolus i'w gweld a'u crwydro, mae nhw'n ofodau cyhoeddus, agored lle gall pobl gyfarfod, cymdeithasu a dysgu. Ond rydyn ni'n gwybod nad yw pawb yn teimlo fod amgueddfeydd yn llefydd iddyn nhw. Rydym am wneud mwy i greu profiad ymwelydd mwy cynhwysol a throi ein hamgueddfeydd yn ofodau sifig mwy dynamig a chreadigol.

Daw ein nawdd yn bennaf gan bobl Cymru drwy grant blynyddol Llywodraeth Cymru. Am bob punt a dderbyniwn, rydym yn cynhyrchu pum gwaith hynny i Gymru – drwy ddenu twristiaid o dramor i'n hamgueddfeydd, ennill grantiau gan gyrff nawdd y DU, nawdd i'n gwaith ymchwil, a darparu contractau a chyflogaeth i fusnesau Cymru.

Ond gwir gyfoeth Cymru yw ei phobl, ac rydym am sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen ar Gymru i'r dyfodol, drwy fuddsoddi yn ein gweithlu a chynnig mwy o brentisiaethau a chyfleon hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys creu gweithlu mwy amrywiol, a chefnogi gweithlu hapus, iach a chreadigol.

Mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn allweddol i Amgueddfa Cymru. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleon a rolau i wirfoddolwyr ledled Cymru o bob oed a chefnidir.

Mae'r diwydiannau creadigol yn allweddol i economi Cymru.

Credwn y gallwn chwarae rhan amlycach yn meithrin talentau creadigol drwy roi gwell mynediad i adnoddau a darparu llwyfan cenedlaethol i syniadau arloesol.

Ym mhob achos posib rydym yn prynu cynnyrch lleol i'n siopau a'n caffis, ac mae'n ofynnol bod y cwmnïau Cymreig y byddwn yn gweithio â nhw yn cyflogi gweithwyr lleol ac yn darparu cynlluniau lles cymunedol lle bo modd.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Eich profiad o ymweld ag un o amgueddfeydd Amgueddfa Cymru.
- Ydych chi wedi gwirfoddoli gydag Amgueddfa Cymru, neu oes gennych ddi-ddordeb?
- Dulliau o wneud ein gweithlu yn fwy amrywiol, gan gynnwys rhwystrau presennol.
- Sut allwn ni wneud mwy i gefnogi eich economi leol?

6



Amcan 6

Creu Amgueddfa Genedlaethol Ddigidol i Gymru

Fe wnaeth cau'r amgueddfeydd cenedlaethol o ganlyniad i COVID-19 ein gorfodi i ailfeddwl sut yr ydym yn ymwneud â phobl Cymru a'u cefnogi, a'r ffordd orau i ni hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol. Mae hefyd wedi newid sut mae pobl yn dysgu, gweithio a mwynhau.

Dros y cyfnod hwn rydym wedi gweithio y tu hwnt i'n hadeiladau i gefnogi pobl yn ddigidol drwy ddarparu cynnwys, gweithgareddau a rhaglenni ar-lein deniadol sy'n ysbrydoli.

Ond rydym am wneud mwy.

Fel y gall pobl o Gymru a thu hwnt gael mynediad i'n trysorfa o adnoddau diwylliannol byddwn yn gwella ein harlwy digidol er mwyn sicrhau taw ein presenoldeb ar-lein fydd ein wythfed amgueddfa genedlaethol. Byddwn yn creu'r bartneriaeth hon ar y cyd â phobl Cymru, fel y gall pobl o bob cwr o'r byd ei mwynhau.

Does gan bawb yng Nghymru ddim mynediad at wasanaethau digidol ar hyn o bryd, a bydd yn well gan nifer barhau i ddefnyddio ein gwasanaethau wyneb yn wyneb. Ond drwy greu Amgueddfa Genedlaethol Ddigidol gallwn sicrhau y bydd mwy o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglenni, ein cysiau a'n digwyddiadau ar-lein, heb orfod cyrraedd ein safleoedd.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hadeiladwaith ddigidol ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr i ddatblygu eu sgiliau.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Ydych chi wedi defnyddio ein cynnwys neu ein rhaglenni ar-lein, yn y gorffennol neu yn ystod y cyfnod clo?
- Ydych chi wedi profi rhwystrau wrth geisio defnyddio ein gwasanaethau neu ein casgliad cenedlaethol yn ddigidol?
- Sut hoffech chi ddefnyddio'r casgliad cenedlaethol neu ein hamgueddfeydd yn ddigidol?
- Esiamplau da gan sefydliadau eraill yr hoffech eu rhannu.

7



Amcan 7

Meithrin cysylltiadau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru i'r Byd

Mae Amgueddfa Cymru yn allweddol wrth hyrwyddo Cymru i'r Byd, dod â'r byd i Gymru, a chefnogi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn cydweithio'n agos â ffoaduriaid yn y ddinas, a hi oedd y cyntaf yng Nghymru i ddod yn Amgueddfa Loches. Rydym am ymestyn ein gwaith gyda phob cymuned sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cario baner Cymru dramor. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi mynd ag arddangosfeydd celf o bwys rhyngwladol i ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau a Japan, ac arddangosfa am ddiwydiant a diwylliant Cymru i Tsieina. Yn 2018, gyda chefnogaeth Llysgenhadaeth Japan, cynhaliwyd arddangosfa hynod lwyddiannus *Kizuna* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, oedd yn canolbwyntio ar y berthynas bedwar can mlynedd rhwng Cymru a Japan. Rydym hefyd wedi datblygu partneriaethau strategol ag amgueddfeydd yn Iwerddon.

Mae ein gwaith yn helpu i hyrwyddo Cymru fel cenedl groesawgar. Rydym yn cynnal dathliadau Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn ein hamgueddfeydd yn flynyddol, yn ogystal â digwyddiadau i ddathlu cyfraniad cymunedau Mwslemaidd, Iddewig, Somali a llawer mwy.

Mae Cymru ar flaen y gad ym maes arloesi diwylliannol. Mewn Cymru wedi Brexit a COVID-19 gall amgueddfeydd adeiladu pontydd rhwng gwledydd a chenhedloedd, yn y cnawd ac yn ddirigol. Roedd ein model o ddiwylliant democrataidd yn greiddiol i ailddatblygiad Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae'n denu diddordeb rhyngwladol mawr a bydd yn sylfaen i'n gwaith yn y ddegawd i ddod.

Beth yw eich barn chi am yr amcan hwn?

Gallwch ystyried y canlynol wrth ymateb:

- Ydych chi wedi gweld, neu gymryd rhan yn ein digwyddiadau i ddathlu cymunedau rhyngwladol Cymru?
- Pa wledydd hoffech chi i ni gydweithio â nhw?
- Beth yw'r peth pwysicaf ddylai'r byd ei wybod am Gymru?

Dweud eich dweud!

Bydd pob barn a syniad yn gymorth i ni greu cynlluniau fydd yn helpu Cymru yn y dyfodol. Gallwch e-bostio, llenwi arolwg neu fod yn greadigol!

Gallwch weld yr arolwg yn ddigidol ar ein gwefan amgueddfa.cymru/eichllais, neu gael copi wedi'i argraffu. Os hoffech gopi wedi'i argraffu o'r arolwg a/neu weithgareddau creadigol rhowch wybod i ni.

Mae fersiwn hawdd i'w darllen a fersiwn sain ar gael o'r ddogfen ymgynghori a'r arolwg.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **30 Medi 2020**.

Gallwch gysylltu â ni ar:

E-bost

amgueddfacymru2030@amgueddfacymru.ac.uk

Post

Tîm Strategaeth, Amgueddfa
Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays. CF10 3NP

 @AmgueddfaCymru

 Amgueddfa Cymru

 museumwales

#AmgueddfaCymru #DweudEichDweud

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Standard
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

ysbrydoli pobl
newid bywydau
inspiring people
changing lives

 Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

